Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cydbwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 23 Medi 2015 |
| **TEITL** | Cyllideb GwE 2015/16 – Adolygiad Tymor Haf 2015 |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2015/16.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae adolygiad tymor haf 2015 yn amcangyfrif tanwariant net o (£29,903) yn erbyn y gyllideb, gyda'r tanwariant ar gostau rhent a chostau teithio.

1.2 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Adeilad: Tanwariant (£21,497):

Wrth sefydlu cyllideb 2015/16 cynyddwyd y gyllideb ‘Rhent Adeiladau’ i adlewyrchu'r gost blwyddyn gyflawn swyddfeydd newydd y GwE yng Nghaernarfon a Conwy. Mae llithriad yn y dyddiad symud i’r lleoliadau newydd wedi arwain at danwariant unwaith ac am byth yn 2015/16.

2.2 Cludiant: Tanwariant (£8,407):

Wrth adolygu’r pennawd yn ystod sefydlu'r gyllideb 2015/16, penderfynwyd lleihau’r gyllideb costau teithio yn agosach at wir wariant. Er hynny mae tuedd 2015/16 yn awgrymu tanwariant bychan.

## 3. GRANTIAU: INCWM RHEOLAETH A GWEINYDDIAETH

3.1 Nid yw’r adroddiad yn cynnwys ystyriaeth arbedion posib trwy’r elfen rheolaeth a gweinyddiaeth rhai grantiau penodol. Bydd adroddiad ar y mater yma yn cael ei gyflwyno i’r cyfarfod nesaf.

## 4. Y GRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2015/16 oedd £266,829, gyda chydbwyllgor GwE eisoes wedi penderfynu ymrwymo £135,000 ar gynlluniau penodol. Gan ychwanegu amcan tanwariant 2015/16 o £29,903, amcangyfrif cronfa heb ei ymrwymo o £161,732.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2015/16 – Adolygiad Tymor Haf 2015.